sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC

Adolygiad

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf 2021
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 15 Medi 2021

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 3

2. Y cefndir i’r ymgynghoriad hwn 5

3. Adolygu ein gwaith o reoleiddio’r BBC 7

4. Y camau nesaf 20


## Atodiad


A1. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn 21

A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 24

A3. Taflen glawr yr ymgynghoriad 25

A4. Cwestiynau’r ymgynghoriad 26

# 1. Trosolwg

**Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi dechrau ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC, a bydd yn sail i'n cyngor i lywodraeth y DU ar gyfer ei adolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter.**

Mae'r BBC wrth wraidd system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM) y DU, gan chwarae rhan ganolog ar draws teledu, radio ac ar-lein. Dyma'r darparwr cyfryngau sy'n cael ei ddefnyddio amlaf yn y DU ac mae'n darparu amrywiaeth o gynnwys unigryw o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ledled y wlad. Fodd bynnag, mae marchnadoedd cyfryngau ac ymddygiad cynulleidfaoedd yn newid yn gyflym. Mae hyn yn creu heriau sylweddol i ddiwydiant darlledu'r DU, gan gynnwys y BBC.

Bu adolygiad Ofcom *Sgrin Fach*: *Trafodaeth Fawr* yn edrych ar y newidiadau hyn ac yn edrych ar ffyrdd o adnewyddu a chryfhau system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt. Yn benodol, mae *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* yn nodi angen brys i foderneiddio rheoleiddio i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gallu ffynnu yn yr oes ddigidol.

Yn 2017, daeth Ofcom yn rheoleiddiwr allanol cyntaf y BBC, a sefydlwyd fframwaith rheoleiddio newydd. Ers hynny, rydym wedi tynnu sylw at rai materion pwysig, yn enwedig yr angen i'r BBC fod yn fwy agored a thryloyw, gan gynnwys sut mae'n cyfleu ei gynlluniau a'i adroddiadau ar berfformiad, a sut mae'n nodi ei benderfyniadau mewn perthynas â safonau cynnwys (yn benodol, didueddrwydd dyladwy) a delio â chwynion. Rydyn ni hefyd wedi herio'r BBC i wneud yn siŵr ei fod yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa.

Wrth i ni nesáu at ganol cyfnod Siarter presennol y BBC, mae'n ofynnol i ni lunio 'Adolygiad Cyfnodol' o'r BBC. Rydyn ni'n bwriadu defnyddio'r cyfle hwn i adeiladu ar gasgliadau *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, ac ystyried ein gwaith rheoleiddio ar y BBC dros y pedair blynedd diwethaf i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben o ran dal y BBC i gyfrif ar ran gwylwyr a gwrandawyr. Fel y nodir yn *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, mae angen penodol i ddiweddaru Trwydded Weithredu'r BBC ar gyfer yr oes ddigidol.

Rydyn ni'n gofyn am safbwyntiau gan bartïon sydd â diddordeb ynghylch cwmpas ein hadolygiad a sut y gallwn ni ddiweddaru ein gwaith rheoleiddio. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw 5pm ar **15 Medi 2021**.

### Beth fydd ein hadolygiad yn ei gynnwys?

Bydd yr adolygiad yn ymdrin â phob agwedd ar reoleiddio'r BBC:

- sut rydyn ni'n dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus;
- sut rydyn ni'n diogelu cystadleuaeth o ran Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC; a
- sut rydyn ni'n sicrhau bod cynnwys a ddarlledir yn cydymffurfio â'r safonau yn y Cod Darlledu, gan gynnwys y rheolau didueddrwydd dyladwy.

### Beth yw ein prif ystyriaethau?

Wrth gynnal ein hadolygiad, ein prif amcan yw sicrhau bod ein gwaith o reoleiddio'r BBC yn addas ar gyfer y dyfodol a'i fod yn parhau i fod mor effeithiol â phosibl. I gyflawni hyn, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein rheoleiddio:

- yn gyrru'r BBC i sefyllfa o fwy o dryloywder ynghylch ei gynlluniau a'i brosesau er budd pawb, gan gynnwys cynulleidfaoedd, y diwydiant a'r Senedd;
- yn cefnogi symudiad y BBC tuag at ddarparu ar-lein ochr yn ochr â darlledu traddodiadol; a
- yn galluogi'r BBC i arloesi a newid er mwyn diwallu anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd.

Rydyn ni'n credu y dylem ymgorffori'r egwyddorion hyn mewn Trwydded Weithredu wedi'i diweddaru ar gyfer y BBC, fel bod y Drwydded yn:

- mynnu mwy o dryloywder ac adrodd mwy effeithiol gan y BBC ar ei gynlluniau ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus a sut mae'n gwerthuso llwyddiant;
- ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif am gyflawni ar draws ei holl wasanaethau, gan gynnwys ar-lein; a
- rhoi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni rhwymedigaethau ei Drwydded Weithredu, er bod hynny'n golygu goruchwyliaeth gadarn gan Ofcom.

## Sut fyddwn ni'n cyflawni ein hadolygiad?

Byddwn yn cyflawni'r adolygiad drwy gyfrwng tri adroddiad:

- **Gaeaf 2021 –** Asesiad o berfformiad y BBC dros gyfnod y Siarter hyd yma;
- **Gwanwyn 2022** – Adroddiad Adolygiad Cyfnodol i gynnwys argymhellion i'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i lywio ei hadolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter, ac unrhyw newidiadau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud i'n prosesau ein hunain; a
- **Gwanwyn 2022** – Ymgynghoriad ar gynigion i esblygu Trwydded Weithredu'r BBC, ac wedyn Trwydded newydd.

# 2. Y cefndir i'r ymgynghoriad hwn

2.1 Yn 2017, penodwyd Ofcom yn rheoleiddiwr annibynnol allanol cyntaf y BBC.[1] Mae gennym ddyletswydd i ddal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd drwy ddarparu rheoleiddio teg, cadarn ac annibynnol mewn tri maes: perfformiad (dal y BBC i gyfrif am gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus), cystadleuaeth (diogelu cystadleuaeth mewn perthynas â gweithgareddau'r BBC) a safonau golygyddol (gan sicrhau bod cynnwys sy'n cael ei ddarlledu yn cydymffurfio â'r safonau yn y Cod Darlledu).[2]

2.2 Ers i ni ddechrau rheoleiddio'r BBC, rydyn ni wedi gwneud llawer iawn o waith ar draws y tri maes hyn. Bob blwyddyn, rydyn ni wedi asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a'i gydymffurfiad â'r amodau yn y Drwydded Weithredu,[3] ac wedi cynhyrchu Adroddiad Blynyddol sy'n amlinellu ein hasesiad.[4] Rydyn ni hefyd wedi cynnal dau adolygiad ad hoc o berfformiad y BBC.[5] Rydyn ni wedi cynnal dau Asesiad Cystadleuaeth y BBC ("BCA") (ar gyfer BBC Scotland a BBC iPlayer) [6] ac rydyn ni wrthi'n cynnal trydydd asesiad ar hyn o bryd.[7] Rydyn ni hefyd wedi ystyried nifer o achosion safonau golygyddol dan broses unigryw 'BBC yn Gyntaf', sy'n golygu ein bod fel arfer yn ystyried cwynion am gynnwys y BBC ar ôl iddyn nhw gael eu hystyried gan y BBC ei hun.

2.3 Dan y Siarter, mae gan Ofcom ddyletswydd i "gynnal a chyhoeddi dau neu fwy o adolygiadau cyfnodol manwl" rhwng 2017 a 2027 ("cyfnod y Siarter"), gan edrych ar "i ba raddau y mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o'r Dibenion Cyhoeddus, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion penodol sy'n peri pryder a nodwyd gan Ofcom".[8] Mae'r Siarter hefyd yn datgan y dylai'r cyntaf o'r Adolygiadau Cyfnodol hyn gael eu cynnal "mewn digon o amser" i lywio adolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter Llywodraeth y DU, y mae'n rhaid iddi ei gynnal rhwng 2022 a 2024.[9]

2.4 Mae'r BBC yn wynebu heriau sylweddol o ran addasu i dueddiadau yn y farchnad a newidiadau mewn ymddygiad cynulleidfaoedd, a allai effeithio ar sut mae'n cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa. Mae ein hargymhellion yn *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* yn nodi sut mae angen cefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y BBC, wrth newid i fod ar-lein.[10] Eglurodd Tim Davie yn ei araith ragarweiniol fel Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y

---

[1] Mae Adran 198 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn rhoi'r pŵer i Ofcom reoleiddio'r BBC. Mae pwerau a dyletswyddau Ofcom wedi'u nodi yn Siarter a Chytundeb y BBC. Mae Erthyglau 44 i 51 y Siarter yn sefydlu rôl Ofcom.
[2] Mae'r Cyflwyniad i Fframwaith Gweithredu Ofcom ar gyfer y BBC yn rhoi rhagor o gefndir am waith rheoleiddio Ofcom.
[3] Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU fel y'i cyhoeddwyd ar 13 Hydref 2017 a'r Drwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, wedi'i diweddaru, dyddiedig 25 March 2021.
[4] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC.
[5] Ofcom, 2018. Cynrychiolaeth a phortread ar deledu'r BBC ac Ofcom, 2019. Adolygiad o newyddion a materion cyfoes y BBC.
[6] Ofcom, 2018. Adolygiad Ofcom o sianel deledu arfaethedig BBC Scotland ac Ofcom, 2019. Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer: datganiad ar benderfyniad terfynol Ofcom
[7] Gweler Adolygiad Ofcom o sianel deledu arfaethedig BBC Three.
[8] Erthygl 51(1) y Siarter.
[9] Erthygl 51(2) ac Erthygl 57 y Siarter.
[10] Ofcom, Gorffennaf 2021. Datganiad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Argymhellion i Lywodraeth y DU ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus.

BBC yn ymwybodol o'r heriau y mae'n eu hwynebu ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw.[11] Dywedodd nad yw'r BBC yn darparu ar gyfer pob cynulleidfa yn gyfartal, gyda rhai pobl yn cael gwerth eithriadol o'r BBC, tra bo eraill yn cael eu gwasanaethu'n wael.[12] Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen i'r BBC barhau i ddatblygu ei gynnig ar-lein.[13]

2.5 Rydyn ni'n bwriadu defnyddio ein Hadolygiad Cyfnodol cyntaf i ystyried sut mae angen i reoleiddio addasu wrth i'r BBC barhau i fynd i'r afael â'r heriau hyn, ac i nodi pa newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio'n parhau'n effeithiol am weddill cyfnod y Siarter, a thu hwnt.

[11] BBC, 3 Medi 2020. Araith ragarweiniol Tim Davie fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC.
[12] RTS, Hydref 2020. BBC i bawb? Araith Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC Tim Davie yng Nghonfensiwn Digidol RTS 2020.
[13] BBC, 3 Medi 2020. Araith ragarweiniol Tim Davie fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC.

# 3. Adolygu ein gwaith o reoleiddio'r BBC

## Adroddiadau a chyhoeddiadau


3.1 Mae ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC yn adeiladu ar *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* yn ogystal â'n profiad ehangach o reoleiddio'r BBC. Bydd yn ymdrin â phob un o dri maes ein gwaith rheoleiddio a bydd yn cyfrannu at yr adroddiadau canlynol:

3.2 Yn gyntaf, byddwn yn cyhoeddi asesiad o berfformiad y BBC dros gyfnod y Siarter hyd yma (yr "asesiad perfformiad"). Bydd yr asesiad hwn yn ystyried sut mae'r BBC wedi cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a sut y mae wedi ymateb i faterion a nodwyd gan Ofcom, er enghraifft yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar y BBC. Bydd yn rhoi sylw i holl agweddau ein rôl. Byddwn yn cyhoeddi'r asesiad hwn ochr yn ochr â'n Hadroddiad Blynyddol ar y BBC, sydd wedi'i drefnu ar gyfer gaeaf 2021.

3.3 Yn ail, byddwn yn cyhoeddi adroddiad Adolygiad Cyfnodol ("Adroddiad Adolygiad Cyfnodol") ar effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y BBC. Byddwn yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio rheoleiddio'r BBC, os yw hynny'n briodol. Bwriedir i hyn – ynghyd â'r asesiad perfformiad – fod yn gyfraniad defnyddiol i broses adolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter Llywodraeth y DU. Byddwn wedyn yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar unrhyw newidiadau i'r Cytundeb a, lle bydd hyn yn effeithio ar ein rôl reoleiddio, byddwn yn addasu'r hyn a wnawn yn unol â hynny am weddill cyfnod y Siarter. Byddwn hefyd yn nodi unrhyw waith ychwanegol, fel adolygiadau ad hoc gan Ofcom neu gynigion ar gyfer newidiadau i brosesau Ofcom. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r adroddiad Adolygiad Cyfnodol yng ngwanwyn 2022.

3.4 Yn drydydd, byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad gyda chynigion i ddiweddaru Trwydded Weithredu'r BBC yng ngwanwyn 2022. Bwriadwn gael Trwydded newydd yn ei lle erbyn Ebrill 2023.

**Ffigur 1: Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC – adolygiad**



## Themâu allweddol yr adolygiad

3.5 Byddwn yn adolygu rheoleiddio ar draws pob rhan o'n dyletswyddau – perfformiad, safonau cynnwys a chystadleuaeth. Yn ogystal, credwn fod rhai themâu trawsbynciol pwysig, yr ydym hefyd yn bwriadu eu hystyried fel rhan o'n Hadolygiad Cyfnodol:

3.6 **Tryloywder ac Ymgysylltu:** Mae'r Siarter yn datgan bod yn rhaid i'r BBC gadw at safonau uchel o ran bod yn agored, a cheisio sicrhau ei fod mor dryloyw ac agored â phosibl.[14] Mae gan y BBC fodel ariannu unigryw drwy ffi'r drwydded, ac felly mae ganddo gyfrifoldebau unigryw i fod yn agored gyda'r cyhoedd a'r Senedd ynghylch sut mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd, ac i weithredu mewn ffordd sydd o fudd i'r sector yn gyffredinol. Rydyn ni wedi codi materion yn gyson ynghylch tryloywder y BBC, gan gynnwys sut mae'n cyfleu ei gynlluniau a'i adroddiadau ar berfformiad, yn enwedig yng nghyd-destun ei wasanaethau ar-lein, a sut mae'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â safonau cynnwys (yn benodol, didueddrwydd dyladwy) a delio â chwynion. Yn fwyaf diweddar, fe wnaethom ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn croesawu comisiynu adolygiad o effeithiolrwydd polisïau a threfniadau llywodraethu golygyddol y BBC ("Adolygiad Serota").[15]

3.7 Mae rhai enghreifftiau da lle mae'r BBC wedi dangos tryloywder. Er enghraifft, gwnaeth y BBC ymrwymiadau yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22 ar gyfer sut byddai ei wasanaethau'n cyfrannu at gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, a oedd mewn rhai achosion yn mynd y tu hwnt i'r amodau a nodir yn y Drwydded Weithredu. Roedd dogfen y BBC Ar Draws y DU hefyd yn rhoi cipolwg ychwanegol defnyddiol ar ei gynlluniau i gryfhau presenoldeb y BBC ledled y DU a dod yn nes at gynulleidfaoedd ar draws y Gwledydd a'r rhanbarthau, gan ei helpu i ddarparu'n well ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn. Byddwn yn defnyddio'r adolygiad hwn i weithio gyda'r BBC a rhanddeiliaid i wella tryloywder ar draws holl weithgareddau'r BBC.

3.8 **Gwerth cyhoeddus:** Mae'r cysyniad o werth cyhoeddus yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn ein gwaith rheoleiddio ac mae cysylltiad annatod rhyngddo a llwyddiant y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae'n cwmpasu sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer unigolion, er enghraifft drwy ei wasanaethau a'i gynnwys, ac mae'n cyfrannu at y gymdeithas ehangach a diwydiant darlledu'r DU. Wrth i'r BBC addasu ei wasanaethau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, drwy wasanaethau darlledu traddodiadol ac ar-lein, bydd yn bwysig i'r BBC addasu ei fesur o werth cyhoeddus.[16]

3.9 Mae ein prosesau presennol yn mynnu bod y BBC yn asesu gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig i Wasanaethau Cyhoeddus y DU[17] yn ei Brofion Budd y Cyhoedd.[18]

---

[14] Erthygl 12(1) y Siarter.
[15] Llythyr gan y Fonesig Melanie Dawes i Tim Davie, Mai 2021.
[16] Comisiynodd y BBC astudiaeth i'w helpu i ddatblygu a phrofi metrigau newydd i asesu sut mae'n cyflawni ei Genhadaeth, yn creu gwerth cyhoeddus ac yn siapio'r farchnad. Gweler Rhagfyr 2020, Institute for Innovation and Public Purpose. Creu a mesur gwerth cyhoeddus deinamig yn y BBC: Adroddiad cwmpasu.
[17] Cymal 7(1) y Cytundeb a Rhan 1 Atodlen 1 y Cytundeb.
[18] Cymalau 7(6), 8, a 10 y Cytundeb, ac Erthygl 20(4) y Siarter.

Byddwn wedyn yn adolygu asesiadau gwerth cyhoeddus y BBC pan fyddwn yn cynnal ein hasesiad o’r gystadleuaeth.[19]

3.10 Yn yr adolygiad hwn, byddwn yn ystyried a ellid gwneud gwerth cyhoeddus yn fwy canolog o ran sut rydym yn asesu perfformiad ac effaith y BBC. Bydd y themâu a godwyd yn ein hasesiadau o’r gystadleuaeth yn y gorffennol[20] yn sail i’n gwaith.

3.11 **Amrywiaeth:** Mae’r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i’r BBC adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU i gyd,[21] ac rydyn ni’n gosod amodau sy’n ymwneud ag amrywiaeth yn Nhrwydded Weithredu’r BBC, gan gynnwys gofyniad i lunio Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth.[22] Mae amrywiaeth yn thema drawsbynciol ar draws ein hystyriaethau o ran sut rydyn ni’n rheoleiddio’r BBC a sut mae wedi cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa. Byddwn yn ystyried materion penodol sy’n ymwneud ag amrywiaeth yng nghyd-destun ein rhaglen waith barhaus ehangach ar amrywiaeth a byddwn yn cynnwys unrhyw faterion perthnasol yn ein hadroddiad ar yr Adolygiad Cyfnodol, er enghraifft, sut gallai materion amrywiaeth effeithio ar safonau cynnwys y BBC, gan gynnwys y ffordd mae’r BBC yn delio â chwynion.

3.12 ***Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr:*** Byddai rhai o’r newidiadau yr ydym yn eu hargymell fel rhan o *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* yn cael effaith ar Siarter a Chytundeb y BBC. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu unrhyw gynigion ar gyfer newid.

## Adolygu ein rôl rheoleiddio

### Perfformiad

3.13 Rydyn ni’n dal y BBC i gyfrif am gyflawni’r Dibenion Cyhoeddus drwy amodau rheoleiddio y mae modd eu gorfodi yr ydyn ni’n eu gosod ar Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU yn y Drwydded Weithredu.[23] Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am osod mesurau perfformiad i asesu cydymffurfiad y BBC â’r amodau hyn ac i archwilio ei berfformiad ehangach.[24] Rydyn ni’n adrodd yn flynyddol ar berfformiad y BBC fel rhan o’n Hadroddiad Blynyddol ar y BBC.

[19] Rydyn ni wedi canfod bylchau yn asesiadau’r BBC yn y gorffennol. Er enghraifft, ym Mhrawf Lles y Cyhoedd BBC iPlayer (Ebrill 2019) ar gyfer newidiadau i BBC iPlayer, ni roddodd y BBC lawer o esboniad ynghylch sut y byddai’n sicrhau y byddai gwerth cyhoeddus yn cael ei ddarparu petai’r gwylio’n symud o deledu sy’n cael ei ddarlledu i BBC iPlayer; nid oedd ychwaith yn ystyried y gwerth cyhoeddus a gynhyrchir gan ddarlledwyr eraill. Gweler Ofcom, Awst 2019. Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer: Penderfyniad terfynol

[20] Yn ddiweddar, fe wnaethom gadarnhau ein bod yn cynnal asesiad cystadleuaeth (“BCA”) o gynnig y BBC i lansio BBC Three fel sianel deledu, lle byddwn yn adolygu asesiad gwerth cyhoeddus diweddaraf y BBC. Byddwn hefyd yn defnyddio’r gwaith hwn.

[21] Erthygl 14 y Siarter. Hefyd, mae’n ofynnol i’r BBC, fel y nodir yn erthyglau 4 a 6(4) y Siarter, hyrwyddo Diben Cyhoeddus 4 a ddisgrifir fel a ganlyn: “Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny...”.

[22] Paragraff 2.46 y Drwydded fel y’i cyhoeddwyd ar 13 Hydref 2017.

[23] Nid yw’r Drwydded Weithredu yn cynnwys BBC World Service; y BBC sy’n gyfrifol am osod trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb). Fodd bynnag, bydd yr Adolygiad Cyfnodol hefyd yn ystyried perfformiad BBC World Service yn unol â chymal 35(7) y Cytundeb.

[24] Mae’r rhain yn ychwanegol at y mesurau a bennwyd gan Fwrdd y BBC i asesu ac adrodd ar berfformiad y BBC (cymal 14(2) y Cytundeb).

## Trwydded Weithredu'r BBC

3.14 Fe wnaethom osod y Drwydded Weithredu bresennol yn 2017. Yn unol â gofynion y Siarter a'r Cytundeb ar gyfer y "Drwydded Weithredu Gyntaf",[25] mae'n cynnwys gofynion meintiol yn bennaf (fel cwotâu) sy'n benodol i wasanaethau teledu a radio unigol y BBC. Fe wnaethom ddweud y dylai'r Drwydded allu addasu i newidiadau yn anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd.[26] Er bod rhai newidiadau wedi cael eu gwneud, nid ydym wedi cynnal adolygiad llawn o'r Drwydded Weithredu ers 2017.

3.15 Mae ein profiad o reoleiddio'r BBC dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos bod rhai meysydd yn y Drwydded Weithredu y mae angen eu diweddaru i sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio'n parhau'n effeithiol.[27] Yn benodol, mae'r BBC yn canolbwyntio fwyfwy ar ddarparu cynnwys drwy ei wasanaethau ar-lein. Fodd bynnag, prin yw'r gydnabyddiaeth a'r rheoleiddio ar wasanaethau ar-lein y BBC yn y Drwydded Weithredu. Ar ben hynny, mae'r ffocws ar ofynion meintiol yn golygu bod y BBC yn cael ei gymell i ganolbwyntio ac adrodd ar sut mae cynnwys a gwasanaethau'n bodloni cwotâu, yn hytrach nag ar sut mae cynnwys a gwasanaethau'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd.

3.16 Er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion hyn, rydyn ni'n cynnig mabwysiadu'r dull canlynol o ddiweddaru'r Drwydded:

3.17 Yn gyntaf, credwn y dylai'r **Drwydded ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif am ei ddarpariaeth ar draws ei holl wasanaethau, nid dim ond ei wasanaethau teledu a radio.** Drwy ehangu ein Trwydded i gynnwys gwasanaethau ar-lein y BBC, fel BBC iPlayer a BBC Sounds, yn fwy cynhwysfawr, byddem yn ceisio sicrhau mwy o dryloywder o ran sut mae'r BBC yn defnyddio'r gwasanaethau hynny i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd, yn ogystal â rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r BBC am gyfraniad y gwasanaethau hyn at gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus.

3.18 Yn ail, credwn y dylai'r **BBC gael cyfle i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni rhwymedigaethau ei Drwydded ar draws ei lwyfannau a'i wasanaethau**, ar yr amod ei fod yn nodi'n gyhoeddus sut y mae'n cynllunio i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Yn ymarferol, gallai amodau'r Drwydded ganiatáu i'r BBC benderfynu ar ba wasanaethau ar-lein neu wasanaethau darlledu i roi ei gynnwys ar gael. Y BBC fyddai'n penderfynu lle orau i gyrraedd cynulleidfaoedd mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr holl wylwyr, defnyddwyr a gwrandawyr yn cael gwasanaeth da, ni waeth sut maen nhw'n cael mynediad at y BBC.

3.19 Rydyn ni hefyd yn credu bod hyn yn golygu y dylai ein gwaith rheoleiddio symud i ffwrdd oddi wrth mynnu cydymffurfiad ag amodau meintiol ac adrodd ar allbwn. Yn hytrach,

[25] Roedd Atodlen 2 y Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom ystyried ffactorau penodol wrth bennu'r Drwydded gyntaf.
[26] Paragraff 1.9 y Drwydded Weithredu fel y'i cyhoeddwyd ar 13 Hydref 2017.
[27] Rhaid i Ofcom barhau i ystyried yr ystyriaethau a nodir yn y Cytundeb ar ôl y Drwydded Weithredu gyntaf ac mae'n ofynnol iddo dan y Cytundeb i barhau i osod rhai amodau penodol mewn Trwydded newydd. Mae ein Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio Trwydded Weithredu'r BBC yn nodi'r ystyriaethau y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth ddiwygio'r Drwydded. Y darpariaethau yn y Cytundeb sydd fwyaf perthnasol i ddiwygio (neu osod) Trwydded yw cymal 13 ac Atodlen 2.

credwn y dylai ein gwaith rheoleiddio gyfuno gofynion meintiol â gofynion sy'n canolbwyntio ar sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd, gan ddefnyddio mesurau fel ansawdd, cyrhaeddiad ac effaith rhaglenni (gofynion ansoddol). Mae'r Drwydded bresennol eisoes yn cydnabod pwysigrwydd gofynion ansoddol drwy'r amcanion lefel uchel sydd wedi'u nodi yn Adran 1 y Drwydded.[28] Fodd bynnag, lle bo'n briodol, byddem yn gwneud y dull hwn yn fwy canolog i'r Drwydded.

3.20 Wrth ystyried y cydbwysedd cywir rhwng gofynion meintiol ac ansoddol, rydyn ni'n ymwybodol o'r angen i sicrhau mathau penodol o raglenni a natur unigryw gwasanaethau'r BBC, ac i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa, lle bynnag maent yn defnyddio cynnwys y BBC (gan gynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n parhau i ddibynnu ar wasanaethau darlledu traddodiadol y BBC). Mae hyn yn golygu y bydd y Drwydded yn parhau i gynnwys cwotâu ochr yn ochr â gofynion ansoddol.

3.21 Yn drydydd, rydyn ni'n credu **y dylai'r Drwydded alluogi Ofcom i ddal y BBC i gyfrif yn fwy effeithiol drwy fynnu mwy o dryloywder ac adroddiadau mwy effeithiol gan y BBC,** pan fydd yn nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a phan fydd yn asesu sut mae wedi cyflawni yn erbyn y cynlluniau hynny. Rydyn ni'n credu bod mwy o dryloywder yn allweddol i Drwydded newydd, ac ni ellir cyflawni unrhyw newidiadau i roi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu sut mae cyflawni rhwymedigaethau ei Drwydded hebddi.

3.22 Dan y Siarter,[29] mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi Cynllun Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'w Gynllun Blynyddol gynnwys (ymysg pethau eraill): y cylch gwaith creadigol ar gyfer y flwyddyn honno; y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn honno; a darpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU. Rhaid iddo wedyn adrodd yn y flwyddyn ganlynol sut mae wedi cyflawni'r cynlluniau hyn. Ar ôl derbyn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, mae'n rhaid i Ofcom gyhoeddi Adroddiad Blynyddol sydd (ymysg pethau eraill) yn asesu perfformiad y BBC a'i gydymffurfiad â'n Trwydded Weithredu.[30]

3.23 I sicrhau mwy o dryloywder, credwn y gallai Cynllun Blynyddol y BBC fod yn gyfrwng allweddol i'r BBC ddarparu esboniad clir a llawn o sut mae'n bwriadu cydymffurfio â gofynion meintiol ac ansoddol y Drwydded y byddem yn eu gosod, ac yn cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Gallem fynnu bod y BBC – drwy rwymedigaethau adrodd gorfodadwy – yn gwneud ymrwymiadau penodol yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod o ran sut mae'n bwriadu cyflawni ein gofynion rheoleiddio. Gallai hyn gynnwys ymrwymiadau meintiol, sy'n nodi nifer yr oriau y byddai'n eu darparu a sut byddai'n dosbarthu ei oriau ar draws ei lwyfannau a'i wasanaethau. Gallem hefyd fynnu bod y BBC yn egluro sut byddai ymrwymiadau o'r fath yn cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, er mwyn darparu sail resymegol glir ar gyfer unrhyw newidiadau y

[28] Adran 1 y Drwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.
[29] Erthygl 36 a 37 y Siarter.
[30] Erthygl 50 y Siarter.

mae wedi'u gwneud i'w ymrwymiadau o flwyddyn i flwyddyn, ac egluro sut mae'n bwriadu monitro eu heffaith.

3.24 Mewn perthynas ag Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, mae'n rhaid i'r BBC nodi a yw wedi cydymffurfio â'n gofynion rheoleiddio. Gallem hefyd fynnu ei fod yn egluro sut y mae wedi cyflawni ei ymrwymiadau ei hun ac yn darparu tystiolaeth ac eglurhad clir i gefnogi hynny. Hefyd, gallai fod yn ofynnol i'r BBC nodi pa gamau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

3.25 Yn bedwerydd, rydyn ni'n credu ei bod hi'n **bwysig bod Ofcom yn gallu camu i mewn, mewn ffordd amserol, os oes gennym unrhyw bryderon difrifol am ddarpariaeth arfaethedig neu wirioneddol y BBC.** Os byddwn yn gofyn i'r BBC wneud ymrwymiadau yn ei Gynllun Blynyddol, byddwn am eu hadolygu'n drwyadl. Yn achos unrhyw bryderon difrifol ynghylch sut mae ei ddarpariaeth arfaethedig yn cydymffurfio â'n gofynion rheoleiddio, neu ynghylch faint o wybodaeth a ddarperir, gallai nifer o gamau gweithredu posibl fod yn briodol. Gallai hyn amrywio o fynnu bod y BBC yn cynhyrchu mwy o wybodaeth am ei ymrwymiadau, i gyhoeddi cyfarwyddiadau ffurfiol yn yr achosion mwyaf difrifol a brys, er enghraifft petaem yn credu bod ymrwymiadau'r BBC yn debygol iawn o dorri gofyniad Trwydded.

3.26 Rydym eisoes yn asesu cydymffurfiad y BBC â'i ofynion rheoleiddio yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Os oes gennym unrhyw bryderon difrifol ynghylch cydymffurfiad y BBC, byddwn yn disgwyl ystyried yn benodol a ddylid adfer cwotâu neu ofynion rhagnodol eraill.

3.27 Mae Ffigur 2 isod yn dangos sut y gallai'r cylch adrodd a ddisgrifir uchod weithio'n ymarferol, gan nodi pryd y byddai'r dogfennau perthnasol yn cael eu cyhoeddi:

**Ffigur 2: Cylch adrodd posibl ar gyfer pob blwyddyn ariannol (mae'r dyddiadau yn yr enghraifft hon yn seiliedig ar y flwyddyn adrodd gyntaf dan Drwydded newydd)**



### Mesur perfformiad

3.28 Gan fod y BBC yn darparu mwy o gynnwys ar ei wasanaethau ar-lein a'n bod yn ceisio ymdrin â'r gwasanaethau hyn yn fwy cynhwysfawr yn y Drwydded Weithredu, byddwn yn edrych ar sut mae angen diweddaru ein fframwaith perfformiad.[31] Bydd angen i'n fframwaith esblygu i fesur a dadansoddi'n effeithiol sut mae'r BBC yn cyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol ac yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ar draws ei holl lwyfannau a gwasanaethau. Bydd angen i ni hefyd ystyried y metrigau priodol ar gyfer asesu perfformiad y BBC a chydymffurfiad â rhwymedigaethau ansoddol.

## Diogelu cynulleidfaoedd a chynnal safonau cynnwys

3.29 Rôl Ofcom o ran diogelu cynulleidfaoedd yw sicrhau bod deunydd darlledu yn cydymffurfio â'r safonau a bennir yn y Cod Darlledu ("y Cod").[32] Mae gennym ddyletswydd hefyd dan Siarter a Chytundeb y BBC i osod gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a gyfeirir atom am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC.[33]

3.30 Yn unol â'r Siarter a'r Cytundeb, mae Ofcom yn dal y BBC i gyfrif yn erbyn rheolau'r Cod er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd y BBC yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed a thramgwydd a bod safonau cynnwys yn cael eu cynnal.[34] Mae gan y BBC hefyd ei Ganllawiau Golygyddol ei hun sy'n adlewyrchu'r Cod ac mae'r BBC yn mynnu bod ei holl gynnwys yn glynu wrth y canllawiau hyn. Mae Ofcom yn sicrhau y cydymffurfir â'r Cod yn bennaf drwy ystyried cwynion, er y gallwn hefyd lansio ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain. Mae'r Cytundeb hefyd yn mynnu bod Ofcom yn penderfynu ar ffurf ac amlder adrodd cwynion y BBC i Ofcom, yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth am weithrediad ac effeithiolrwydd y ffordd mae'r BBC yn delio â chwynion.[35]

3.31 Fel rhan o'r Adolygiad Cyfnodol hwn, **byddwn yn ystyried a yw BBC yn Gyntaf yn parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd.** Mae 'BBC yn Gyntaf' yn golygu os oes gan wyliwr neu wrandäwr gŵyn am rywbeth maen nhw wedi'i weld neu ei glywed mewn rhaglen deledu gan y BBC, mae'n rhaid iddyn nhw gwyno wrth y BBC yn y lle cyntaf.[36] Os gwneir cwyn am gynnwys y BBC yn uniongyrchol i Ofcom cyn iddo gael ei gyflwyno i'r BBC, bydd fel arfer yn cael ei gyfeirio'n ôl at y BBC. Mae hyn yn caniatáu i gynulleidfaoedd ddal y BBC i gyfrif drwy ymgysylltu ag ef yn uniongyrchol drwy un broses gwyno, gydag Ofcom yn goruchwylio'r holl faterion golygyddol yn annibynnol. Gall y rhai sy'n cwyno gyfeirio eu cwyn at Ofcom os ydynt yn anfodlon ar ymateb terfynol y BBC, ystyried y gallai rhoi sancsiwn gan Ofcom yn

[31] Mae gweithdrefnau Ofcom ar gyfer gosod a diwygio mesurau perfformiad wedi'u nodi yn Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd: Mesurau Perfformiad.

[32] Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Darlledu 1996. Yn ogystal, mae erthygl 46(7) y Siarter yn datgan y bydd yn rhaid i Ofcom sicrhau bod safonau'n cael eu dilyn yng nghynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol y DU sy'n gorfod bod yn unol â'r Codau Safonau a Thegwch.

[33] Cymal 57 y Cytundeb.

[34] Mae rheolau'r cod yn cwmpasu meysydd yn cynnwys: diogelu pobl ifanc dan 18 oed; niwed a thramgwydd; didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy; a thegwch a phreifatrwydd.

[35] Cymalau 56(7) a 56(8) y Cytundeb.

[36] Nid yw hyn yn berthnasol i gwynion am Degwch a Phreifatrwydd, y dylid eu cyflwyno'n uniongyrchol i Ofcom. Gweler Sut y mae Ofcom yn deilo â chwynion teledu, radio ac ar-alw y BBC.

erbyn y BBC fod yn briodol, neu os bydd y BBC yn methu ag ymateb i'r gŵyn o fewn cyfnod penodol.

3.32 Mae BBC yn Gyntaf yn broses unigryw sydd wedi'i chynllunio i gwrdd â heriau penodol rheoleiddio'r BBC. Mae'n caniatáu i'r BBC ystyried ac o bosibl datrys cwynion cyn iddynt gyrraedd Ofcom, nad yw'n berthnasol i unrhyw ddarlledwr arall sy'n cael ei reoleiddio gan Ofcom.

3.33 Yn gyntaf, byddwn yn **ystyried sut y gallai'r BBC wella ei dryloywder wrth wneud penderfyniadau a delio â chwynion, gan gynnwys mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy.** Mae hyder y cyhoedd yng ngweithrediad ac effeithiolrwydd proses gwynion y BBC yn dibynnu ar fod y BBC yn ddigon tryloyw o ran sut mae'n delio â chwynion ac yn eu datrys.

3.34 Yn 2017, fe wnaethom osod cyfres o ofynion, drwy ein Penderfyniadau ar Gwynion y BBC, i'r BBC gyhoeddi data am ei swyddogaeth cwynion yn fanwl. Bwriad hyn oedd meithrin a chynnal hyder y cyhoedd yng ngweithrediad fframwaith BBC yn Gyntaf. Mae'r BBC bellach yn cyhoeddi gwybodaeth bob pythefnos am gwynion golygyddol, sef:

- cyfanswm nifer y cwynion am raglenni, gyda gwybodaeth ychwanegol am y rhaglenni a gafodd nifer uchel o gwynion (dros 100);
- gwybodaeth am gwynion perthnasol sy'n gwynion golygyddol[37] sy'n cael eu symud ymlaen at Uned Cwynion Gweithredol y BBC ("UCG")[38] a chanlyniadau rhai o'r cwynion hyn; a
- chanran y cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnod perthnasol.

3.35 Rydyn ni wedi adolygu ein Penderfyniadau ar Gwynion y BBC yn rheolaidd ac rydym hefyd wedi cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar berfformiad y BBC o ran delio â chwynion ar draws ei wasanaethau, gan gynnwys ym maes didueddrwydd dyladwy.

3.36 Er ein bod wedi ystyried yn gyffredinol bod fframwaith BBC yn Gyntaf wedi gweithio'n dda, roedd achos safonau yn 2019, *BBC Breakfast*, wedi rhoi pryderon difrifol i ni ynghylch tryloywder y BBC o ran ei brosesau cwynion, a gwnaethom weithredu i fynd i'r afael â hyn fel mater o frys.[39] Ar ôl i ni dynnu sylw at ein pryderon yn gyhoeddus:

---

[37] Mae'r rhain yn gwynion sy'n ymwneud â dilyn y safonau a nodir yng Nghod Darlledu Ofcom a/neu ddyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau gwleidyddol gan bleidiau a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm.

[38] Yr UCG yw'r ail gam a'r cam olaf yng ngweithdrefn gwyno fewnol y BBC. Mae'n ymchwilio i gwynion yn ddiduedd ac yn annibynnol ar fuddiannau gwneuthurwyr rhaglenni/darparwyr cynnwys. Bydd yn penderfynu a yw Canllawiau Golygyddol y BBC wedi cael eu torri. Cyhoeddir canfyddiadau'r UCG ar gwynion golygyddol sylweddol bob pythefnos.

[39] Derbyniodd Ofcom 18 o gwynion am raglen *BBC Breakfast* a ddarlledwyd ar 17 Gorffennaf 2019. Roedd y rhan fwyaf o'r achwynwyr yn gwrthwynebu'r ffaith bod Uned Cwynion Gweithredol y BBC, ar 26 Medi 2019, wedi cadarnhau'n rhannol gŵyn am y rhaglen o dan Ganllawiau Golygyddol y BBC ar y sail ei bod yn torri gofynion didueddrwydd dyladwy'r BBC. Yn dilyn beirniadaeth gyhoeddus, fe wnaeth Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wrthdroi canfyddiad yr Uned Cwynion Gweithredol ar 30 Medi 2019. Asesodd Ofcom y rhaglen dan y rheolau didueddrwydd dyladwy yn y Cod ac nid oedd yn credu y byddai'r rhaglen wedi torri'r rheolau hyn. Gweler Ofcom, Awst 2019. Asesiad Ofcom o BBC Breakfast, BBC One, 17 Gorffennaf 2019**.** Roeddem o'r farn bod problemau sylweddol gyda'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaeth y BBC ynghylch cydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol a'r Cod. Ni chafodd rhesymeg lawn Uned Cwynion Gweithredol y BBC na rhesymeg ddilynol y Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol dros wrthdroi canfyddiad yr Uned Cwynion Gweithredol eu cyhoeddi gan y BBC.

- adolygodd y BBC ei broses gwyno ac ymgynghorodd ar newidiadau i'w Fframwaith Cwynion, a gyflwynwyd wedyn ym mis Mehefin 2020;[40] a
- fe wnaethom hefyd ddiwygio ein Penderfyniadau Cwynion i annog y BBC i fod yn fwy tryloyw yn ei benderfyniadau ar gwynion golygyddol, yn enwedig mewn perthynas â chyhoeddi canlyniadau cwynion sy'n symud ymlaen i'r Uned Cwynion Gweithredol.

3.37 Er ein bod yn nodi'r gwelliannau mae'r BBC wedi'u gwneud ers 2017, gan gynnwys y camau a gymerwyd yn 2020 i gyhoeddi rhagor o ddata ar gwynion, fel y dywedasom yn ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf, mae lle i fynd ymhellach. Bydd ein Penderfyniadau ynghylch Cwynion yn y BBC yn wynebu adolygiad pellach yn 2021. Fodd bynnag, bwriadwn ymgorffori hyn yn yr Adolygiad Cyfnodol.

3.38 Yn ail, byddwn yn **craffu ar broses y BBC ar gyfer delio â chwynion difrifol a'u cyflymu.** Mae'n arbennig o bwysig bod y BBC yn ddigon tryloyw o ran sut mae'n adnabod, yn delio ac yn cyflymu cwynion difrifol. Mae hyn yn cynnwys cwynion a ddaw i law yn ystod cyfnodau etholiadau, lle mae mwy o ddisgwyl i'r BBC ymateb yn gyflym o fewn amserlenni byr lle bo angen.

3.39 Yn olaf, byddwn hefyd yn **archwilio a yw proses gwynion y BBC yn parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd.** Dylai gwneud cwyn am un o raglenni'r BBC fod yn broses syml a dylai'r hyn sy'n digwydd i gŵyn fod yn glir i bawb sy'n gwneud un. Fodd bynnag, rydyn ni'n gwybod bod rhai achwynwyr wedi mynd â'u cwyn yn uniongyrchol i Ofcom yn anghywir cyn cysylltu â'r BBC, ac mae rhai hefyd yn dweud wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd deall proses gwyno'r BBC. Ar wahân, rydym hefyd yn ymwybodol y gall yr amserlenni ar gyfer cael ymateb gan y BBC fod yn hir weithiau, a allai fod yn rhwystr i'r rheini sy'n cwyno uwchgyfeirio eu mater i Ofcom. Ar ben hynny, mae'r BBC, fel Ofcom, yn cael llawer mwy o gwynion nawr nag o'r blaen.[41] O ystyried fframwaith BBC yn Gyntaf, mae hyn hefyd o bryd i'w gilydd wedi effeithio ar yr amser mae'r BBC yn ei gymryd i ymateb i achwynwyr.

3.40 Ar ôl ystyried, rydyn ni wedi penderfynu peidio ag archwilio dau faes ychwanegol: yn gyntaf, yn 2019 fe wnaethom gynnal adolygiad o newyddion a materion cyfoes y BBC a oedd yn un helaeth, ac a oedd yn ystyried didueddrwydd dyladwy yn rhannol. Drwy ein gwaith gorfodi parhaus ar safonau cynnwys, rydym yn cadw golwg fanwl ar gydymffurfiad y BBC â rheolau didueddrwydd dyladwy y Cod. Er nad ydyn ni'n bwriadu cynnwys didueddrwydd dyladwy fel maes annibynnol i'w archwilio yn yr Adolygiad Cyfnodol, ni fyddem yn oedi cyn ystyried y mater hwn yn y dyfodol os bydd angen. Yn ail, credwn y byddai'n briodol i ni ystyried addasrwydd trefniant ar-lein y BBC[42] yn yr Adolygiad Cyfnodol nesaf o'r BBC, yng ngoleuni newidiadau arfaethedig i reoleiddio diogelwch ar-lein i fynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein.

---

[40] BBC, Mehefin 2020. Fframwaith a Gweithdrefnau Cwynion y BBC.

[41] Cafodd y BBC 368,377 o gwynion Cam 1 yn 2019/20, o'i gymharu â 218,352 yn 2018/19. Gweler Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2019/20, t. 105 a Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2018/19, t.134.

[42] Mae deunydd ar-lein yn golygu cynnwys ar wefan ac apiau'r BBC. Mae hyn yn cynnwys testun ysgrifenedig, delweddau, fideos a chynnwys sain. **Nid yw'n** cynnwys cyfryngau cymdeithasol, Bitesize, deunydd y BBC ar wefannau trydydd parti na chynnwys y World Service, ymysg pethau eraill.

## Effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth

3.41 Mae'n hanfodol bod y BBC yn addasu ei wasanaethau cyhoeddus i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd sy'n newid. Mae hefyd yn bwysig bod gweithgareddau masnachol y BBC yn addasu i newidiadau yn amodau'r farchnad er mwyn iddynt allu ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi a sicrhau'r elw mwyaf posibl (a ddefnyddir yn y pen draw i ategu ffi'r drwydded neu ail-fuddsoddi yn y gweithgareddau masnachol). Rydyn ni'n cefnogi'r angen i'r BBC arloesi, tyfu a newid cyn belled â bod hyn yn cael ei wneud yn deg.

3.42 Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, sy'n gweithredu ar draws y sectorau teledu, radio ac ar-lein yn y DU, mae gan y BBC botensial i effeithio ar gystadleuaeth. Nod y rheoliad a nodir yn y Siarter a'r Cytundeb yw cyfyngu unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth i'r rheini sy'n angenrheidiol er mwyn i'r BBC gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Os na chaiff cystadleuaeth ei diogelu'n briodol, gallai hyn olygu llai o ddewis i gynulleidfaoedd petai gweithredoedd y BBC, er enghraifft, yn atal mynediad, ei gystadleuwyr yn rhoi'r gorau i gynnig gwasanaethau, neu lai o welliannau o ran ansawdd neu arloesi a allai fod wedi digwydd fel arall.

3.43 Mae hefyd yn ofynnol i'r BBC roi ystyriaeth i effeithiau ei weithgareddau ar gystadleuaeth yn y Deyrnas Unedig, ac ystyried hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar y farchnad ehangach.[43] Pan fydd y BBC yn gwneud newid sylweddol i'w Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU, rhaid iddo, ymysg pethau eraill, ystyried yr effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU ac osgoi unrhyw effaith negyddol ddiangen.[44]

3.44 Rhaid i Ofcom hefyd sicrhau nad yw ei weithgareddau masnachol yn ystumio'r farchnad ac nad ydynt yn cael mantais gystadleuol annheg oherwydd eu perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded.[45]

3.45 Mae gan Ofcom rôl yn y gwaith o ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.[46] Rydyn ni wedi sefydlu rheolau ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol ac rydyn ni'n adolygu'r newidiadau y mae'r BBC yn eu gwneud i'r gweithgareddau hyn.

3.46 Fel y nodir yn *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, mae newidiadau sylweddol wedi bod yn y farchnad ac o ran ymddygiad cynulleidfaoedd. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y newid hwn yn parhau. Mae hefyd yn bwysig bod y fframwaith yn rhoi digon o hyblygrwydd i'r BBC barhau i arloesi a diwallu anghenion cynulleidfaoedd ar yr un pryd â sicrhau bod cystadleuaeth deg ac effeithiol yn cael ei diogelu.

---

[43] Erthygl 11 y Siarter.
[44] Erthygl 11 y Siarter. Gweler hefyd Erthygl 20(4) y Siarter, a chymalau 7 i 11 y Cytundeb.
[45] Erthygl 18(b) y Siarter. Gweler hefyd Erthygl 20(5) y Siarter.
[46] Ymysg pethau eraill, mae'n rhaid i Ofcom osod gofynion yn Fframwaith Gweithredu'r BBC i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU (Erthygl 46 y Siarter).

### Y broses ar gyfer newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU

3.47 Rhaid i’r BBC ystyried a yw unrhyw newidiadau arfaethedig i’w Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn rhai sylweddol.[47] Ar gyfer unrhyw newid sylweddol, rhaid i’r BBC gynnal ac ymgynghori ar Brawf Budd y Cyhoedd (“PIT”), a dim ond os yw wedi cael ei gymeradwyo gan Ofcom y caiff weithredu’r newid.[48] Rhaid i’r Prawf Budd y Cyhoedd ystyried sut mae’r newid arfaethedig yn helpu’r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a’i Ddibenion Cyhoeddus ac a yw’r gwerth cyhoeddus sy’n cael ei greu gan y newid yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.[49] Wrth ddod i benderfyniad dilynol, rhaid i Ofcom hefyd ystyried a yw’r newid yn sylweddol, a chynnal asesiad BCA neu asesiad byrrach sy’n ystyried yr un materion â PIT y BBC.[50]

3.48 Os nad yw’r BBC yn ystyried bod y newid yn sylweddol a bod Ofcom yn cytuno ag asesiad y BBC, nid oes gofynion rheoleiddio pellach. Fodd bynnag, os byddwn yn anghytuno â’r BBC ac yn ystyried bod ei newid arfaethedig yn sylweddol, gallwn, ymysg pethau eraill, gyfarwyddo’r BBC i gynnal Prawf Budd y Cyhoedd (PIT).[51] Yn ymarferol, er mwyn osgoi hyn, mae’r BBC fel arfer yn darparu ei asesiadau o ran perthnasedd i Ofcom cyn gweithredu unrhyw newid i’w wasanaethau.

3.49 Drwy sgyrsiau â rhanddeiliaid ac wrth i ni gael mwy o brofiad o sut mae’r drefn newidiadau sylweddol yn gweithio’n ymarferol, rydym wedi nodi nifer o faterion.

3.50 **Gallai rhagor o eglurder ynghylch y broses perthnasedd gychwynnol fod yn fuddiol.** Mater i’r BBC yw cynnal yr asesiad cychwynnol ynghylch a yw newid yn fater sylweddol. Rydyn ni a rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch diffyg ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y broses hon ac nad yw’r BBC yn darparu digon o fanylion am y newidiadau y mae’n bwriadu eu gwneud. O ganlyniad, mae pryder nad yw’r BBC wedi ystyried yn llawn effaith y newidiadau ar gystadleuaeth.

3.51 Er nad oes gan Ofcom rôl ffurfiol yn y broses gychwynnol hon, yn ymarferol mae’r BBC yn darparu ei asesiadau i Ofcom i’w hadolygu. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg eglurder i randdeiliaid ynghylch rôl Ofcom yn y broses. Mae hefyd yn golygu bod Ofcom yn gwerthuso pob newid, hyd yn oed newidiadau nad oes ganddynt unrhyw risg, neu risg isel, o effeithio ar y farchnad.

3.52 Rydyn ni’n bwriadu **ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i brosesau prawf lles y cyhoedd (PIT) y BBC ac asesiad cystadleuaeth llawn (BCA) Ofcom i sicrhau bod y**

---

[47] Nid yw llawer o’r penderfyniadau y mae’r BBC yn eu gwneud o ddydd i ddydd (a phroffil uchel weithiau) yn cael eu hystyried yn rhai sylweddol. Mae Cymal 7(7) y Cytundeb yn diffinio newid sylweddol fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU neu newid i Wasanaeth Cyhoeddus presennol yn y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

[48] Cymal 7(6) y Cytundeb mewn perthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, a chymal 16(5) mewn perthynas â gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau.

[49] Cymalau 8, 10, 17, a 19 y Cytundeb, ac Erthygl 20(4) y Siarter.

[50] Cymal 9(2) y Cytundeb mewn perthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, a chymal 18(2) mewn perthynas â gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau. Gweler hefyd Ofcom, Mawrth 2017. Asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC: Gweithdrefnau a Chanllawiau Ofcom.

[51] Cymal 9(6) y Cytundeb mewn perthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, a chymal 18(6) mewn perthynas â gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau.

**BBC yn gallu diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn effeithiol a bod cystadleuaeth deg ac effeithiol yn cael ei diogelu.** Mae'r broses bresennol o'r BBC yn cynnal Prawf Budd y Cyhoedd, wedi'i dilyn gan asesiad perthnasedd Ofcom a BCA (neu asesiad byrrach) yn gallu bod yn ddyblygol ac efallai na fydd yn darparu'r cymhellion cywir, yn enwedig ar gyfer y BBC. Mae'r BBC wedi nodi pwysigrwydd osgoi rheoleiddio dyblyg a biwrocratiaeth wrth ganiatáu iddo arloesi.[52] Mae rhanddeiliaid eraill wedi mynegi pryderon am y diffyg manylder yn yr ymgynghoriadau PIT ac nad yw'r BBC yn rhoi ystyriaeth i'w safbwyntiau.

### Gweithgareddau masnachol

3.53 Dim ond drwy is-gwmnïau y gall y BBC gyflawni gweithgareddau masnachol. Er mwyn sicrhau bod ffin effeithiol rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol, rydyn ni wedi gosod nifer o ofynion ar y BBC i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.[53]

3.54 BBC Studios yw prif is-gwmni masnachol y BBC. Ers iddo gael ei ymgorffori yn 2017 (pan gafodd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau cynhyrchu eu symud o'r gwasanaeth cyhoeddus), mae wedi cael ei gyfuno â BBC Worldwide (sy'n gwerthu rhaglenni yn y DU ac o amgylch y byd), mae wedi cymryd rheolaeth lawn dros saith allan o ddeg sianel deledu UKTV ac wedi ymrwymo i fargeinion cynnwys sylweddol, gan gynnwys Discovery, BritBox a Sky.

3.55 Yn ein hadolygiad o BBC Studios, rydyn ni'n ceisio deall yn well sut mae'r BBC wedi gweithredu'r gofynion.[54] Mae Adolygiad BBC Studios yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol a/neu sicrhau bod gan y BBC ddigon o hyblygrwydd i ddiwallu heriau a chyfleoedd y marchnadoedd sy'n esblygu y mae'n gweithredu ynddynt o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol.

3.56 Mae'r Adolygiad Cyfnodol yn gyfle i drafod a yw'r fframwaith sy'n cael ei greu gan y Siarter a'r Cytundeb yn dal yn addas i'r diben, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad a'r ffordd mae BBC Studios wedi esblygu dros y pedair blynedd diwethaf.

3.57 Yn benodol, credwn y byddai'n ddefnyddiol **ystyried yn yr Adolygiad Cyfnodol rôl y gwasanaeth cyhoeddus wrth weithredu'r gweithgareddau masnachol.** Er enghraifft, a ddylid gwneud yn glir bod ganddo rôl sylweddol o ran goruchwylio'r gweithgareddau masnachol a chyfrifoldeb dros bennu eu cyfeiriad strategol neu a ddylai ei rôl gael ei chyfyngu'n fwy uniongyrchol i sicrhau bod y gweithgareddau masnachol yn cyd-fynd â'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus?

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Gofynnwn am farn a thystiolaeth rhanddeiliaid ar y cwestiynau canlynol:

---

[52] BBC, Mawrth 2021. Ymateb y BBC i ymgynghoriad Ofcom 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr ar Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, t.5.
[53] Ofcom, Chwefror 2019. Gweithgareddau Masnachol a Masnachu'r BBC: Gofynion a chanllawiau Ofcom.
[54] Ofcom, Ebrill 2021. Adolygiad o'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig yr adolygiad o reoleiddio'r BBC fel y nodir yn y ddogfen hon? Os nad ydych chi, esboniwch y meysydd lle rydych chi'n meddwl y dylid gwneud newidiadau.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r ffordd yr ydyn ni'n bwriadu adolygu Trwydded Weithredu'r BBC? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw farn ynghylch sut mae mesur perfformiad y BBC?

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig ein hadolygiad yng nghyswllt safonau cynnwys? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r materion rydyn ni wedi'u nodi gyda'r prosesau ar gyfer asesu effaith gystadleuol newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU? Os ydych chi'n credu y dylid gwneud newidiadau i'r prosesau hyn, nodwch beth yw'r rhain ac, os yw'n bosibl, darparwch unrhyw dystiolaeth berthnasol.

Cwestiwn 6: Oes gennych chi unrhyw bryderon am y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithgareddau masnachol y BBC nad ydynt yn cael eu hystyried yn yr adolygiad o BBC Studios?

# 4. Y camau nesaf

4.1 Y dyddiad olaf ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **15 Medi 2021.** Rydyn ni'n croesawu tystiolaeth gan randdeiliaid ar y meysydd a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn.

4.2 Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau gan randdeiliaid wrth gynnal ein dadansoddiad, ac rydyn ni'n disgwyl y bydd angen gwneud rhagor o waith ymchwil a chasglu gwybodaeth.

4.3 Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi ein hadolygiad manwl cyntaf o berfformiad y BBC fel rhan o Adroddiad Blynyddol 2020/21 ar y BBC, sydd wedi'i drefnu ar gyfer gaeaf 2021 ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad hwn yn asesu perfformiad y BBC drwy gydol 2020/21, ac yn ystyried sut mae'r BBC wedi cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ac wedi ymateb i faterion a godwyd gan Ofcom dros gyfnod y Siarter hyd yma.

4.4 Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad Adolygiad Cyfnodol yng ngwanwyn 2022, a fydd yn nodi meysydd y mae Ofcom yn credu y dylai llywodraeth y DU eu hystyried yn ei hadolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter ei hun. Bydd hefyd yn cyfeirio at unrhyw waith pellach y bydd Ofcom yn ei wneud.

4.5 Yng ngwanwyn 2022, byddwn hefyd yn cyhoeddi ymgynghoriad manwl ar Drwydded Weithredu newydd ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

4.6 Rydyn ni'n bwriadu cwrdd â rhanddeiliaid sydd â diddordeb i drafod ein cynigion ymhellach yn yr hydref.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 15 Medi 2021.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/how-ofcom-regulates-the-bbc. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i bbcregulationreview@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. Mae'r cyfeiriad e-bost hwn ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn unig.

A1.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

A1.5 Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu

A1.6 Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.7 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A1.8 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.9 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.10 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A1.11 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â bbcregulationreview@ofcom.org.uk

## Cyfrinachedd

A1.12 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar wefan Ofcom, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A1.13 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

A1.14 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A1.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi asesiad o berfformiad y BBC dros gyfnod y Siarter hyd yma ochr yn ochr â'n Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn ystod gaeaf 2021. Rydyn ni hefyd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad Adolygiad Cyfnodol yng ngwanwyn 2022 a fydd yn cynnwys argymhellion i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer ei hadolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter. Rydyn ni hefyd yn bwriadu ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd y BBC yng ngwanwyn 2022.

A1.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydyn ni'n arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn

am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Taflen glawr yr ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

______________________________________________________________________________________

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

Cwestiynau'r ymgynghoriad

# A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A4.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch sut rydyn ni'n bwriadu adolygu sut rydyn ni'n rheoleiddio'r BBC.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig yr adolygiad o reoleiddio'r BBC fel y nodir yn y ddogfen hon? Os nad ydych chi, esboniwch y meysydd lle rydych chi'n meddwl y dylid gwneud newidiadau.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r ffordd yr ydyn ni'n bwriadu adolygu Trwydded Weithredu'r BBC? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw farn ynghylch sut mae mesur perfformiad y BBC?

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig ein hadolygiad yng nghyswllt safonau cynnwys? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r materion rydyn ni wedi'u nodi gyda'r prosesau ar gyfer asesu effaith gystadleuol newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU? Os ydych chi'n credu y dylid gwneud newidiadau i'r prosesau hyn, nodwch beth yw'r rhain ac, os yw'n bosibl, darparwch unrhyw dystiolaeth berthnasol.

Cwestiwn 6: Oes gennych chi unrhyw bryderon am y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithgareddau masnachol y BBC nad ydynt yn cael eu hystyried yn yr adolygiad o BBC Studios?